

977/51

**MATHEMATEG FP1**

**Mathemateg Bur Bellach**

P.M. DYDD LLUN, 12 Mehefin 2006

( $1\frac{1}{2}$  awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfryd Fformiwlâu;
- cyfrifiannell.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi bod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

1. Darganfyddwch fynegiad ar gyfer swm y gyfres

$$1.2.6 + 2.3.7 + \dots + n(n+1)(n+5).$$

Rhowch eich ateb fel lluoswm ffactorau llinol wedi'u mynegi yn nhermau  $n$ .

[6]

2. Differwch  $\frac{1}{2x-3}$  o egwyddorion sylfaenol.

[6]

3. Datryswch yr hafaliad canlynol ar gyfer y rhif cymhlyg  $z$ .

$$\frac{z}{z+1} = 2 + 3i$$

Rhowch eich ateb yn ei ffurf symlaf.

[6]

4. Ystyriwch yr hafaliad ciwbig

$$x^3 + px^2 + 56x + q = 0.$$

O wybod bod y tri gwreiddyn i gyd yn bositif a'u bod yn ffurfio tri therm cyntaf cyfres geometrig â chymhareb gyffredin 2,

(a) darganfyddwch dri gwreiddyn yr hafaliad,

[4]

(b) darganfyddwch werthoedd  $p$  a  $q$ .

[2]

5. Rhoddir y matricsau  $\mathbf{A}$  ac  $\mathbf{I}$  gan

$$\mathbf{A} = \begin{bmatrix} -4 & -4 & 4 \\ -1 & 0 & 1 \\ -7 & -6 & 7 \end{bmatrix}; \quad \mathbf{I} = \begin{bmatrix} 1 & 0 & 0 \\ 0 & 1 & 0 \\ 0 & 0 & 1 \end{bmatrix}.$$

(a) Ysgrifennwch y matrics  $\mathbf{A} + \lambda\mathbf{I}$ .

[2]

(b) Darganfyddwch y gwerthoedd ar gyfer  $\lambda$  fel bod y matrics  $\mathbf{A} + \lambda\mathbf{I}$  yn hynod.

[7]

6. Diffinnir y trawsffurfiadau  $T_1$  a  $T_2$  o'r plân fel a ganlyn.

$T_1$  : Trawsfudiad sy'n trawsffurfio'r pwynt  $(x, y)$  i'r pwynt  $(x-1, y+1)$ .

$T_2$  : Adlewyrchiad yn y llinell  $y = x$ .

Mae'r trawsffurfiad sengl  $T$  gywerth â  $T_1$  wedi'i ddilyn gan  $T_2$ .

(a) Darganfyddwch y matrics  $3 \times 3$  sy'n cynrychioli  $T$ .

[4]

(b) Darganfyddwch hafaliad locws pwyntiau sefydlog  $T$ .

[4]

7. Defnyddiwch anwythiad mathemategol i ddangos bod  $9^n - 5^n$  yn rhanadwy â 4 ar gyfer pob cyfanrif positif  $n$ . [7]

8. Trwy ostwng i ffurf echelon, datryswch yr hafaliadau

$$\begin{bmatrix} 1 & 3 & 2 \\ 2 & 1 & 1 \\ 3 & 2 & -1 \end{bmatrix} \begin{bmatrix} x \\ y \\ z \end{bmatrix} = \begin{bmatrix} 13 \\ 7 \\ 4 \end{bmatrix}. \quad [7]$$

9. Hafaliad y gromlin  $C$  yw

$$y = x^{-x} \text{ ar gyfer } x > 0.$$

(a) Darganfyddwch gyfesurynnau'r pwynt arhosol ar  $C$ . [6]

(b) (i) Dangoswch fod

$$y \frac{d^2y}{dx^2} = \left( \frac{dy}{dx} \right)^2 - \frac{y^2}{x}.$$

(ii) **Trwy hyn**, darganfyddwch natur y pwynt arhosol hwn. [6]

10. Cynrychiolir y rhifau cymhlyg  $z$  ac  $w$  ar ddiagramau Argand gan bwyntiau  $P(x, y)$  a  $Q(u, v)$ , yn ôl eu trefn, ac mae

$$w = z^2.$$

Mae'r pwynt  $P$  yn symud ar hyd y llinell  $y = x - 1$ . Darganfyddwch hafaliad Cartesaidd locws  $Q$ . [8]